



## Welsh Language Scheme Policy

Document Control			
<b>Version Number:</b>	5	<b>Previous Version No.:</b>	4
<b>Applicable To:</b>	All stakeholders	<b>Date Approved by Board</b>	22nd June 2023
<b>Responsible Officer/s:</b>	Chief Executive	<b>Next Review Date:</b>	April 2026 or upon change of legislation

An Equality Impact Assessment of the Welsh Language Scheme Policy has been undertaken in line with current legislation by the Corporate Governance and Compliance Manager.

## **1. Opening Statement**

### **1.1 Aim of the Scheme**

Tai Tarian has adopted the principle, that in the conduct of its business in Wales, it will aim to treat the Welsh and English languages on the basis of equality wherever practicably possible.

This Scheme notes how we will operate that principle in providing services to communities in Wales.

### **1.2 Objectives**

We acknowledge that our customers can express their opinions and needs better in their chosen language. We also acknowledge that enabling them to use the Welsh language is a matter of good practice rather than a concession, and that denying them the right to use their chosen language could place them in a disadvantaged position. We will therefore offer customers the right to choose which language to use when dealing with us, wherever practicably possible, in accordance with the principle above.

## **2. Introduction**

### **2.1 Background and corporate values**

We are a community focussed housing organisation based in Neath Port Talbot set up specifically to own, manage and improve homes. We are:

- Providing social housing in the County Borough and services to several thousand people in Neath Port Talbot.
- A large independent business with an annual turnover of over £54 million.
- A charitable business that aims to help regenerate the communities we work in both economically and socially, through the use of local suppliers and creating training and employment opportunities for local people.
- A business keen to develop soft skills to provide a supportive approach for our customers.

### **2.2 We aim to:**

- Provide high-quality, energy efficient, affordable homes, and excellent services to customers primarily in Neath Port Talbot.
- Promote and support vibrant, safe, clean and healthy communities working closely with residents and partners.
- Run an open and democratic organisation with high levels of community involvement.
- Use the resources we have to best effect in maximising other benefits to the community, including creating sustainable local jobs, increasing skills and improving the environment in which our communities sit.

Our values listed below reflect the joint views of customers and staff about the kind of organisation they want Tai Tarian to be:

- Be Bold
- Be Fair
- Be Kind

### **2.3 Structure and area of operation**

Tai Tarian is a registered society under the Co-Operative and Community Benefits Society 2014. We are a Community Housing Mutual model and therefore owned by our contract holders and residents in Neath Port Talbot. It is governed by a Board consisting of contract holders, and independent members.

We employ over 500 members of staff, the majority of whom are based at our head office in Baglan Energy Park.

### **2.4 Customers**

Our customers are primarily contract holders but include around 452 leaseholders and also those looking for a home.

### **2.5 The Welsh language**

The 2021 census identified that within Neath Port Talbot County Borough 18,662 people or 13.5% of the population aged 3 years and over were reported as able to speak Welsh. This was a reduction of 2,036 people who reported in 2011 that they were able to speak Welsh. Although 13.5% of the population in Neath Port Talbot speak Welsh not all are fluent Welsh speakers. Many of those who can speak or understand Welsh are less able to read or write in Welsh.

A contract holder profiling exercise undertaken by the organisation indicated that:

- 31 contract holders wished to be spoken to in Welsh which is 1.18% of the 2635 surveyed.
- 8 contract holders wish to be written to in Welsh which is 0.30% of the 2,646 surveyed.

This policy has been framed on the basis that, at present, the number of our stakeholders who come from a Welsh-speaking population is very small and even fewer read or write in Welsh.

We have to prioritise our use of the finite resources available to us. Unfortunately, on that basis, we may be unable to provide a Welsh Language Scheme that completely meets the needs of a very small percentage of our customers. This is because other activities which benefit a higher level of our customers may take precedence in the allocation of resources.

Individuals may request, and have the right to ask us, to use Welsh if that is their preferred language. We have identified members of staff within Tai Tarian who Welsh speakers are so that any customer who wishes to speak to us in Welsh can do so.

Where necessary, to ensure a high-quality service we will supplement the language skills of our staff with professional translation services such as Language Line telephone and video services and these facilities are readily available to avoid any unnecessary delay in service provision.

We will promote and support the enhancement of the Welsh language through paid time off for staff who wish to undertake language training.

Lastly, subject to financial considerations we will support eligible contract holder members who wish to undertake Welsh language training on an annual basis.

The arrangements will be kept under review and should circumstances change, we will ensure that the Welsh Language Scheme Policy is reviewed to reflect changes in the community language profile and that resources are made available to reflect such circumstances.

The contact point for the Welsh Language Scheme is the Chief Executive, who can be contacted at Ty Gwyn, Brunel Way, Baglan Energy Park, Neath, SA11 2FP.

### **3. Planning and delivering services**

#### **3.1 Policies and initiatives**

In formulating new policies and initiatives, or in amending policies, we will assess their linguistic impact and make sure they are consistent with this Scheme and will ensure that the measures in the Scheme are implemented when new policies and initiatives come into force.

We will consult the Welsh Language Commissioner beforehand regarding any proposal which would directly affect this Welsh Language Scheme. This Scheme will not be amended without the prior agreement of the Welsh Language Commissioner.

We will ensure that whoever is involved in the formulation of policies is aware of the Scheme and of our responsibilities under the Welsh Language (Wales) Measure, 2011.

We will review the Policy following the update of the Welsh Language Standards by the Welsh Language Commissioner.

#### **3.2 Service provision**

Wherever practicably possible, we aim to deliver the same high standard of service in Welsh where this is requested, as in English.

We will ensure through clear information and signposting that those dealing with us are aware of how we can communicate with each other both in Welsh and English as required. All key documents will contain the following statement in Welsh:

"If you would like any of our information in Welsh please ask. We will consider each request on a case-by-case basis.

You can do so by visiting us or writing to us at the address below or by telephoning 0300 777 0000. If you would find it easier to talk to us in Welsh, we can arrange for a Welsh speaker to be present at an appointment."

This statement is also be displayed in all our reception areas:

We will endeavour to establish the chosen language of those dealing with us and strive to ensure that we have sufficient members of staff who are competent and confident enough to offer assistance and services in Welsh. Where necessary, to ensure a high-quality service we will supplement the language skills of our staff with professional translation services such as Language Line and these facilities will be readily available to avoid any unnecessary delay in service provision.

Services provided for our customers by other organisations will be made aware of this Scheme and expected to comply with it as far as is possible.

### **3.3 Quality standards**

We will aim to provide, as far as possible, services in Welsh and in English which will be equal in quality and within the same timescales.

## **4. Dealing with the Welsh speaking public**

### **4.1 Correspondence**

- Tai Tarian welcomes correspondence in Welsh.
- Correspondence responded to in Welsh should not cause a delay.
- When written to in Welsh, we will, if needed and if practically possible, provide a reply in Welsh.
- We will make a record of people who wish to deal with us in Welsh.
- Where possible we will deal with all people who have indicated they wish to be dealt with in Welsh as their chosen language.

### **4.2 Communication over the telephone**

Tai Tarian welcomes personal enquiries in Welsh or English. In order to achieve the aim of treating the Welsh and English languages on an equal basis, we will take the following steps to enable Welsh speakers to deal with us in Welsh over the telephone:

- Provide an internal directory of Welsh speakers; and
- Provide staff with guidelines on how to deal with telephone calls from Welsh speakers including the use of Language Line and ensure that they are familiar with the arrangements.

### **4.3 Public meetings**

When public meetings are held by Tai Tarian, including conferences and other similar events, those present will be welcome to contribute through the medium of Welsh or English.

We will assess the need for members of staff who speak Welsh to be present to welcome the public and to deal with their enquiries. Our staff will make their language abilities evident at meetings, for example, by greeting people bilingually and using the Welsh Language Commissioner's "Iaith Gwaith" badges and lanyards.

When there are Welsh speakers among those invited to attend, or if it is known that Welsh speakers intend to be present, translation facilities will be considered on a case-by-case basis.

#### **4.4 Other meetings**

We welcome meetings with the public in Welsh or in English, but due to the shortage of Welsh speakers, we cannot guarantee a face-to-face meeting in Welsh. In such circumstances we will politely explain the situation and offer other options, such as proceeding with the meeting in English, the use of Language Line or rearranging the meeting until a Welsh speaking member of staff is available.

#### **4.5 Communicating with the public in other ways**

We will consider the best ways of meeting the needs of Welsh speakers in whichever way we deal with the public.

### **5. The public face of Tai Tarian**

#### **5.1 Corporate identity and signs**

We have a bilingual identity promoting Tai Tarian and our premises and services using a bilingual logo.

When we renew or re-erect any signs we will ensure that the new versions are totally bilingual. Signs erected for the first time will be totally bilingual. NB This does not include Sheltered Scheme signs as the contract holders are asked what they want, this may be English only, Welsh only or bilingual sign as it is for their home.

The size, standard of clarity and prominence of the words on the signs will respect the principle of language equality.

#### **5.2 Publishing and printing materials including forms and explanatory materials**

Due to the small percentage of customers who are fluent in Welsh in Neath Port Talbot and the high cost of translation, printing and publication we will not guarantee that all documents will be automatically translated into Welsh. We will aim to produce some documents that are needed to access our services for the first time in both languages.

This will include:

- leaflets explaining how to become a contract holder;
- how to apply for jobs;
- how to join as a member;
- how to contact us; and

- a copy of our Welsh Language Scheme.

We will produce these documents separately in each language giving people the choice of which language version they require. A sentence will be included in both versions to explain that it is also available in the other language. We will keep this under review on a yearly basis as the Scheme progresses.

Our Website [www.taitarian.co.uk](http://www.taitarian.co.uk) is mainly in English but we will ensure that:

- Our Welsh Language Scheme will be posted on our website in English and Welsh; and
- The access information referred to above is also available in Welsh through our website.

### **5.3 Press releases and presentations**

Usually, these will be issued in English. There may be notices or events where bilingual presentation is considered appropriate; this will be provided.

## **6. Implementation and review of the scheme**

### **6.1 Staffing and recruitment**

We will make arrangements to ensure, to the extent that it is reasonably practical, that workplaces which have contact with the public have access to staff with appropriate Welsh language skills to enable those workplaces to provide a service in Welsh. The degree to which this is necessary or possible will vary, depending on the service and on the area.

In order to ensure that we have appropriate Welsh language skills in the correct places, we will follow the following process:

- We will note those workplaces and posts where the ability to speak Welsh is desirable or essential.
- We will conduct an audit every year to establish the number of staff who have Welsh language skills, as well as their level of ability and location.
- The results of these two exercises will be compared in order to identify workplaces where there is a shortage of staff with appropriate skills in the Welsh language.

We will respond to any lack of skills by means of recruitment or training.

We will also provide awareness training for staff with regard to the requirements of this Scheme. Our standard practice will be to include such training in the induction of new staff.

### **6.2 Welsh Language training**

We will undertake to support staff to learn Welsh when it is appropriate to do so. The type of language training offered to staff will be in line with each individual's personal and professional needs, and the requirements of the organisation's business, but could include:

- General introduction to the language for complete beginners;

- Confidence building sessions for staff with some knowledge of the language;
- Welsh for front line staff advanced courses; and
- Welsh Language Awareness.

Subject to financial considerations we will support eligible contact holder members who wish to undertake Welsh language training on an annual basis.

#### **6.3 Administrative arrangements**

This Scheme has the full authority, support and approval of Tai Tarian. The Chief Executive has the overall responsibility for the implementation of the Welsh Language Scheme and all our members of staff have a responsibility to know how to implement the Scheme effectively.

All Directors will be responsible for implementing the clauses of the Welsh Language Scheme.

#### **6.4 Reviewing the implementation of the Scheme**

The Senior Management Team collectively has responsibility for monitoring and reviewing this Scheme on an annual basis.

We will use our standard comments, compliments and complaints processes to record and deal with feedback about this Scheme and will ensure that it will be possible to monitor specific complaints about the Scheme.

The Chief Executive will report to Tai Tarian's Board annually and will send a copy of the report to the Welsh Language Commissioner. The report will follow a format agreed with the Board and will include information about the nature of any complaints and improvement suggestions received from the public in respect of the Scheme.

#### **6.5 Publication of information**

We will include a statement in our Annual Report for public consumption, noting where members of the public can obtain a copy of our annual monitoring report to the Welsh Language Commissioner.

#### **6.6 Publicity**

We will ensure that members of the public who deal with us know about this Scheme and its contents, and how they can conduct their dealings with us in Welsh.

Our methods of publicising the Scheme and its contents will follow our usual corporate publicity arrangements and we will ensure that the Scheme is published in a prominent location on our website.

#### **6.7 Accessibility**

A copy of the Scheme will be made readily available to all stakeholders on the internet.

Tai Tarian will in all reasonable circumstances make information available in a variety of information formats, including: large print; audio media; and community language.



## Cynllun Iaith Gymraeg

Rheoli Dogfen			
Rhif Fersiwn	5	Rhif y Fersiwn Flaenorol:	4
Yn Berthnasol i:	Bob rhanddeiliaid	Dyddiad Cymeradwyo gan y Bwrdd:	
Swyddog (ion) â Chyfrifoldeb:	Prif Weithredwr	Dyddiad Adolygiad Nesaf:	Ebrill 2026 neu os bydd newid i ddeddfwriaeth

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â ddeddfwriaeth gyfredol gan y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfiaeth.

## **1. Datganiad Agoriadol**

### **1.1 Nod y Cynllun**

Mae Tai Tarian wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn ceisio trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weithredu yng Nghymru, lle bynnag y bo modd gwneud hynny yn ymarferol.

Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau yng Nghymru.

### **1.2 Amcanion**

Rydym yn cydnabod y gall ein cwsmeriaid fynegi eu barn ac anghenion yn well yn eu dewis iaith. Rydym hefyd yn cydnabod bod eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn arfer da yn hytrach na chonsesiwn a byddai peidio â rhoi'r hawl iddynt ddefnyddio eu dewis iaith yn eu rhoi dan anfantais. Felly, byddwn yn cynnig yr hawl i gwsmeriaid ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio gyda ni, lle bynnag bo hynny'n ymarferol bosib, yn unol â'r egwyddor uchod.

## **2. Cyflwyniad**

### **2.1 Cefndir a gwerthoedd corfforaethol**

Rydym yn sefydliad tai cymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot a sefydlwyd yn benodol i fod yn berchen ar gartrefi i'w rheoli a'u gwella. Rydym yn:

- Darparu tai cymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol a gwasanaethau i sawl mil o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Fusnes annibynnol mawr gyda throsiant blynnyddol o dros £54 miliwn.
- Fusnes elusennol gyda'r nod o helpu i adfywio'r cymunedau lle rydym yn gweithio ynnyddnt, yn economaidd ac yn gymdeithasol, trwy greu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl leol.
- Fusnes sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau meddal i ddarparu ymagwedd gefnogol ar gyfer ein cwsmeriaid.

### **2.2 Ein nod yw:**

- Darparu cartrefi fforddiadwy, ynni-effeithlon o safon a gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid yng Nghastell-nedd Port Talbot yn bennaf.
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau bywiog, diogel, glân ac iach trwy weithio yn agos gyda phreswylwyr a phartneriaid.
- Rhedeg sefydliad agored a democraidd gyda lefelau uchel o gyfranogaeth gymunedol.
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym i fwyafu buddion eraill i'r gymuned gan gynnwys creu swyddi lleol a chynaliadwy, cynyddu sgiliau a gwella amgylchedd ein cymunedau.

Mae ein gwerthoedd a restrir isod yn adlewyrchu barn ein cwsmeriaid a staff am y math o sefydliad y maent am i Tai Tarian fod:

- Bod yn feiddgar
- Bod yn deg

- Bod yn garedig

## **2.3 Strwythur ac ardal weithredu**

Mae Tai Tarian yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014. Rydym yn gweithredu yn unol â model Tai Cymunedol Cydfuddiannol ac felly'n berchen i'n deiliaid contract yng Nghastell-nedd Port Talbot. Fe'i llywodraethir gan fwrdd sy'n cynnwys deiliaid contract ac aelodau annibynnol.

Rydym yn cyflogi dros 500 aelod staff a'r mwyafrif yn gweithio yn ein prif swyddfa ym Mharc Ynni Baglan.

## **2.4 Cwsmeriaid**

Deiliaid contract yw ein cwsmeriaid yn bennaf sydd hefyd yn cynnwys tua 452 o lesddeiliaid a phobl sy'n chwilio am gartref.

## **2.5 Y Gymraeg**

Nododd cyfrifiad 2021 fod 18,662 neu 13.5% o'r boblogaeth sy'n 3 oed neu hŷn ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, wedi'u nodi fel siaradwyr Cymraeg. Dyma ostyngiad o 2,036 o bobl a nododd yn 2011 eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Er bod 13.5% o'r boblogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn siarad Cymraeg, nid yw bob un ohonynt yn siaradwr Cymraeg rhugl. Prin iawn yw'r rhai sy'n siarad neu'n deall Cymraeg sy'n gallu darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg.

Nododd ymarfer proffilio deiliaid contract a wnaed gan y sefydliad bod:

- 31 o ddeiliaid contract yn dymuno i bobl siarad gyda nhw yn Gymraeg (sy'n 1.18%) o'r 2635 a oedd yn rhan o'r arolwg
- 8 o ddeiliaid contract yn dymuno i bobl ysgrifennu atynt yn Gymraeg sy'n 0.30% o'r 2,646 a oedd yn rhan o'r arolwg.

Lluniwyd y Polisi hwn ar y sail bod nifer fach o'n rhanddeiliaid, ar hyn o bryd, yn dod o boblogaeth Gymraeg a bod hyd yn oed llai ohonynt yn gallu darllen neu ysgrifennu'n Gymraeg.

Mae'n rhaid i ni flaenoriaethu ein defnydd o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni. Yn anffodus, ar y sail honno, efallai na fydd modd i ni ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n diwallu anghenion canran fach iawn o'n cwsmeriaid yn llwyr. Y rheswm am hyn yw efallai bydd gweithgareddau eraill sydd o les i fwy o'n cwsmeriaid yn cymryd blaenoriaeth wrth ddyrannu adnoddau.

Caiff unigolion ofyn i ni ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae ganddynt yr hawl i ofyn hyn os mai dyma'r iaith sydd well ganddynt. Rydym wedi adnabod aelodau o staff yn Tai Tarian sy'n siarad Cymraeg fel bod unrhyw gwsmer sydd am siarad â ni yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

Lle bo angen, ac er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon, byddwn yn ategu sgiliau iaith ein staff gyda gwasanaethau cyfeithu proffesiynol, megis gwasanaethau ffôn a fideo Language Line a bydd y cyfleusterau hyn ar gael yn rhwydd er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwella'r Gymraeg trwy dalu staff sydd â diddordeb i gael seibiant i gyflawni hyfforddiant iaith.

Yn olaf, yn amodol ar ystyriaethau ariannol, byddwn yn cefnogi aelodau cymwys sy'n ddeiliaid contract i gyflawni hyfforddiant Cymraeg yn flynyddol.

Caiff y trefniadau eu hadolygu'n rheolaidd ac os bydd newid yn yr amgylchiadau, byddwn yn sicrhau y caiff y Cynllun Iaith Gymraeg ei adolygu i adlewyrchu'r newidiadau ym mhroffil iaith y gymuned a darparu adnoddau i adlewyrchu'r fath amgylchiadau.

Y pwnt cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg yw'r Prif Weithredwr. Gellir cysylltu ag ef yn Nhŷ Gwyn, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2FP, ffôn 01639 505877.

### **3. Cynllunio a chyflawni gwasanaethau**

#### **3.1 Polisiau a mentrau newydd**

Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, neu wrth addasu polisiau, byddwn yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun hwn. Byddwn yn sicrhau y caiff y mesurau yn y cynllun eu rhoi ar waith pan ddaw polisiau a mentrau newydd i rym.

Byddwn yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ar unrhyw gynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei addasu heb gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau y bydd pwy bynnag sy'n gyfrifol am lunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun a'n cyfrifoldebau o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru), 2011.

Byddwn yn adolygu'r polisi yn dilyn diweddarriad ar Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg.

#### **3.2 Darparu gwasanaeth**

Lle bynnag y bo'n ymarferol, rydym yn ceisio cyflwyno'r un safon uchel o wasanaeth yn y Gymraeg, lle bo gofyn am hyn, ag yn y Saesneg.

Byddwn yn sicrhau, trwy wybodaeth a chyfeirio clir, bod y rhai sy'n delio â ni'n ymwybodol ein bod yn gallu cyfathrebu â'n gilydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ôl yr angen. Bydd pob dogfen allweddol yn cynnwys y datganiad canlynol yn Gymraeg:

"Os hoffech gael unrhyw wybodaeth yn Gymraeg, gofynnwch. Byddwn yn ystyried pob cais fusul achos.

Gallwch wneud hynny trwy ymweld â ni neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio 0300 777 0000. Os byddai'n haws i chi siarad â ni yn Gymraeg, gallwn drefnu i siaradwr Cymraeg fod yn bresennol mewn unrhyw apwyntiad."

Caiff y datganiad hwn ei arddangos hefyd yn ein holl dderbynfeydd:

Byddwn yn ymdrechu i nodi iaith o ddewis y rhai sy'n delio â ni ac yn ceisio sicrhau bod gennym ddigon o aelodau o staff sy'n gymwys ac yn ddigon hyderus i gynnig cymorth a gwasanaethau yn Gymraeg. Lle bo angen, ac er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon, byddwn yn ategu sgiliau iaith ein staff gyda gwasanaethau cyfieithu proffesiynol, megis Language Line a bydd y cyfleusterau hyn ar gael yn rhwydd er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen wrth ddarparu'r gwasanaeth.

Byddwn yn sicrhau bod sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a bod disgwyl iddynt gydymffurfio ag ef cymaint ag sy'n bosib.

### **3.3 Safonau ansawdd**

Ein nod yw darparu, cyn belled ag y bo modd, gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg a fydd yn gyfartal o ran ansawdd ac o fewn yr un amserlenni.

## **4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

### **4.1. Gohebiaeth**

- Mae Tai Tarian yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
- Ni ddylai gohebiaeth yr ymatebir iddi yn Gymraeg achosi oedi.
- Pan fo rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn, os bydd angen ac os bydd hynny'n ymarferol, yn ymateb yn Gymraeg.
- Byddwn yn cadw cofnod o bobl sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg.
- Lle bynnag y bo modd, byddwn yn delio â'r holl bobl sydd wedi nodi yr hoffent i ni ddelio â hwy yn Gymraeg fel yr iaith o'u dewis.

### **4.2 Cyfathrebu dros y ffôn**

Mae Tai Tarian yn croesawu ymholiadau personol yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i drafod â ni yn Gymraeg dros y ffôn:

- Darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg; a
- Rhoi arweiniad i staff ar sut i ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg gan gynnwys defnyddio Language Line a sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd â'r trefniadau.

### **4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus**

Pan fydd Tai Tarian yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg eraill, bydd croeso i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Byddwn yn asesu'r angen i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd ac i ymdrin â'u hymholiadau. Bydd ein staff yn amlygu eu gallu i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd, er enghraifft, trwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynnau a chortyn gwddf "Iaith Gwaith" Comisiynydd y Gymraeg.

Pan fo siaradwyr Cymraeg ymhlieth y rhai sydd wedi'u gwahodd i'r cyfarfod, neu os ydym yn gwybod bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yn bresennol, byddwn yn ystyried darparu cyfleusterau cyfieithu fesul achos.

#### **4.4 Cyfarfodydd eraill**

Rydym yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg ond, oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y fath amgylchiadau, byddwn yn esbonio'r sefyllfa'n gwrtais ac yn cynnig dewisiadau eraill, megis bwrw ymlaen â'r cyfarfod yn Saesneg, defnyddio Language Line neu aildrefnu'r cyfarfod pan fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

#### **4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill**

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha ffordd bynnag rydym yn delio â'r cyhoedd.

### **5. Wyneb Cyhoeddus Tai Tarian**

#### **5.1 Hunaniaeth gorfforaethol ac arwyddion**

Mae gennym hunaniaeth ddwyieithog sy'n hyrwyddo Tai Tarian ac mae ein safleoedd a'n gwasanaethau'n defnyddio logo dwyieithog.

Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailiosod unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn llwyr ddwyieithog. Bydd arwyddion sy'n cael eu codi am y tro cyntaf yn gwbl ddwyieithog. DS Nid yw hyn yn cynnwys arwyddion Cynlluniau Lloches gan y gofynnir i'r deiliaid contract am yr hyn y maent ei eisiau arnynt, gallai hyn fod yn Saesneg yn unig, Cymraeg yn unig neu'n arwydd dwyieithog gan mai ar gyfer eu cartref nhw ydyw.

Bydd maint, eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parchu egwyddor cydraddoldeb iaith.

#### **5.2 Cyhoeddi ac argraffu deunyddiau gan gynnwys ffurflenni a deunyddiau esboniadol**

Oherwydd y ganran fach o ddeiliaid contract sy'n rhugl yn y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot a chost uchel cyfieithu, argraffu a chyhoeddi, ni fyddwn yn gwarantu y bydd pob dogfen yn cael ei chyfieithu'n awtomatig i'r Gymraeg. Byddwn yn ceisio cynhyrchu rhai dogfennau sy'n angenrheidiol i ddefnyddio ein gwasanaethau am y tro cyntaf yn y ddwy iaith.

Bydd hyn yn cynnwys:

- taflenni sy'n esbonio sut i fod yn ddeiliad contract;
- sut i wneud cais am swyddi;

- sut i ymaelodi;
- sut i gysylltu â ni; a
- chopi o'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Byddwn yn cynhyrchu'r dogfennau hyn ar wahân yn y naill iaith a'r llall i roi cyfle i bobl ddewis pa fersiwn iaith yr hoffent ei chael. Caiff brawddeg ei chynnwys yn y ddwy fersiwn i esbonio ei bod ar gael yn yr iaith arall hefyd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol wrth i'r Cynllun ddatblygu.

Mae ein gwefan, [www.taitarian.co.uk](http://www.taitarian.co.uk) yn Saesneg yn bennaf ond byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- Bydd ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg; a
- Bydd yr wybodaeth fynediad y cyfeiriwyd ati uchod hefyd ar gael yn Gymraeg trwy ein gwefan.

### **5.3 Datganiadau i'r wasg a chyflwyniadau**

Fel arfer, bydd y rhain yn cael eu rhyddhau yn Saesneg. Os bydd hysbysiadau neu ddigwyddiadau lle'r ystyrir ei bod yn briodol eu darparu'n ddwyieithog, bydd hynny yn cael ei ddarparu.

## **6. Gweithredu ac adolygu'r cynllun**

### **6.1 Staffio a recriwtio**

Byddwn yn gwneud trefniadau i sicrhau, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, fod gan weithleoedd sy'n ymwneud â'r cyhoedd, aelodau o staff sydd â sgiliau Cymraeg priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd i ba raddau y mae hyn yn angenreidiol neu'n bosib yn dibynnu ar y gwasanaeth ac ar yr ardal.

Er mwyn sicrhau bod gennym sgiliau Cymraeg yn y lleoedd priodol, byddwn yn dilyn y broses ganlynol:

- Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.
- Byddwn yn cynnal archwiliad bob blwyddyn i nodi nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu a'u lleoliad.
- Caiff canlyniadau'r ddau ymarfer hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithleoedd lle mae prinder staff â sgiliau priodol yn y Gymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau trwy recriwtio neu hyfforddi.

Byddwn hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff o ran gofynion y Cynllun hwn. Bydd ein hymarfer safonol hefyd yn cynnwys hyfforddiant fel anwytho staff newydd.

### **6.2 Hyfforddiant iaith Gymraeg**

Byddwn yn cefnogi staff i ddysgu Cymraeg pan fo'n briodol gwneud hynny.

Bydd y math o hyfforddiant iaith a gynhigir i staff yn unol ag anghenion personol a phroffesiynol pob unigolyn a gofynion busnes y sefydliad, ond gellid cynnwys:

- Cyflwyniad cyffredinol i'r iaith ar gyfer dechreuwyr pur;
- Sesiynau magu hyder ar gyfer staff â pheth gwybodaeth o'r iaith;
- Cyrsiau Cymraeg uwch ar gyfer staff rheng flaen; a
- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Yn amodol ar ystyriaethau ariannol, byddwn yn cefnogi aelodau cymwys sy'n ddeiliad contract sydd am gyflawni hyfforddiant Cymraeg yn flynyddol.

#### **6.3 Trefniadau gweinyddol**

Mae gan y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Tai Tarian. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol am roi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith ac mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am wybod sut i roi'r Cynllun ar waith yn effeithiol.

Bydd pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am roi cymalau'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith.

#### **6.4 Adolygu rhoi'r cynllun ar waith**

Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli gyfrifoldeb ar y cyd am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn yn flynyddol.

Byddwn yn defnyddio ein prosesau sylwadau, canmoliaeth a chwynion safonol i gofnodi a thrin adborth am y cynllun hwn a byddwn yn sicrhau y bydd modd monitro cwynion penodol am y Cynllun.

Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i Fwrdd Tai Tarian yn flynyddol a bydd yn anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau a dderbyniwyd gan y cyhoedd o ran y Cynllun.

#### **6.5 Cyhoeddi gwybodaeth**

Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynnyddol i'r cyhoedd, gan nodi lle gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynnyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

#### **6.6. Cyhoeddusrwydd**

Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n delio â ni yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut gallent drafod materion â ni yn y Gymraeg.

Bydd ein dulliau o hysbysebu'r cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol  
a byddwn yn sicrhau y caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn lle amlwg ar ein gwefan.

#### **6.7 Hygyrchedd**

Bydd copi o'r Cynllun ar gael yn hwylus i bob rhanddeiliad ar y we.

Bydd Tai Tarian, ym mhob sefyllfa resymol, yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn nifer o ffurflai gwahanol, gan gynnwys: print bras; cyfrwng clywedol ac iaith gymunedol.